
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdodyn eu darparu



### Swyddogaeth yr Awdurdod

Dibenion a dyletswydd yr Awdurdod yw sail yr holl waith a wneir gan yr Awdurdod a dyma fan cychwyn y cynlluniau a'r strategaethau y mae'n eu datblygu. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Neddf yr Amgylchedd 1995 ac maent fel a ganlyn:

**Dibenion Statudol** – gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

**Dyletswydd Statudol** – i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw o fewn y Parc Cenedlaethol.

**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o aelodau a benodir gan y canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 1
- Cyngor Sir Gaerfyrddin – 1
- Cyngor Sir Fynwy – 1
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – 1
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 1
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 1
- Cyngor Sir Powys – 6
- Aelodau a bennir gan Lywodraeth Cymru – 6

Mae gan yr Awdurdod hefyd ddau Aelod Annibynnol, a benodir i eistedd ar y Pwyllgor Safonau.

Gwariodd yr Awdurdod £7.643 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2022-23, o'i gymharu â £7.369 miliwn ar gyfer 2021-22.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod £3.480 miliwn o gronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio o'i gymharu â £3.885 miliwn ar 31 Mawrth 2022. Mae hyn gyfwerth â 47% o gyfanswm gwariant blynyddol yr Awdurdod ar wasanaethau, sef, gostyngiad o 53% o ganran gyfatebol y flwyddyn flaenorol ar 31 Mawrth 2022.

Gan ystyried incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau, ar 31 Mawrth 2023, mae'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio o £3.480 miliwn yn cynrychioli 63% o gost net gwasanaethau'r Awdurdod, sef, gostyngiad o'r ganran gyfatebol y flwyddyn flaenorol o 76% ar 31 Mawrth 2022.

Ar gyfer 2022-23, cynhyrchodd yr Awdurdod £2.097 miliwn o incwm yn gysylltiedig â gwasanaethau, sef 41% o gyfanswm ei gyllid cyffredinol. Ar gyfer 2021-22, y symiau cyfatebol oedd £2.258 miliwn a 47% yn y drefn honno.

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2022-23 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn sicr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn iawn.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn edrych a yw'r Awdurdod wedi cyflwyno trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi gwneud hyn.
- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

# Yr hyn a ganfuom

## Archwilio Cyfrifon 2022-23 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod.

### Ar gyfer 2022-23:

- cyflwynwyd y datganiad o'r cyfrifon wedi'i lofnodi i'w archwilio ar 13 Hydref 2023. Roedd datganiad o'r cyfrifon heb ei lofnodi hefyd wedi dod i'n llaw ar 8 Awst 2023.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda ar y cyfan. Ar 15 Chwefror 2024 rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg ddiamod ar y datganiad o'r cyfrifon a archwiliwyd.
- cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod datganiad llywodraethu blynyddol ac adroddiad naratif yr Awdurdod wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllaw perthnasol; a'u bod yn gyson â'r datganiad o'r cyfrifon a'n gwybodaeth am yr Awdurdod.
- arweiniodd yr archwiliad at nifer o newidiadau i ddatganiad cyfrifon yr Awdurdod, a adroddwyd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 14 Chwefror 2024 drwy ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon.
- ar 15 Chwefror 2024, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei dystysgrif hefyd yn cadarnhau bod archwiliad y datganiad o'r cyfrifon 2022-23 wedi'i gwblhau.

## Llywodraethu

Ym mis Mai 2023, gwnaethom gyhoeddi llythyr yn rhoi diweddariad ychwanegol ar y cynnydd a wnaed yn erbyn adroddiad 2022 yr Archwilydd Cyffredinol ar Gynnydd wrth gyflawni Argymhellion Statudol, a gyhoeddwyd wedi ein hadolygiad cynharach i Gyflawni'r Rhaglen Newid. Gwnaethom edrych ar gynnydd wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Archwilio Cymru,

gwaith i gryfhau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, a gallu sefydliadol a chydnerthedd i gyflawni gwelliant. Canfuom fod yr Awdurdod mewn lle gwell na blwyddyn yn ôl a cheir egin gwyrdd clir o ran adferiad. Fodd bynnag, mae rhai heriau sylweddol yn parhau wrth symud ymlaen, sy'n gwneud y rhagolygon ar gyfer gwella yn y tymor byr yn ansicr.

## Prosiectau lleol – Arallgyfeirio Incwm

Ym mis Mai 2023, gwnaethom gwblhau adolygiad ar arallgyfeirio incwm gan edrych ar sut mae'r Awdurdod yn arallgyfeirio ei ffrydiau incwm i ategu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Yn gyffredinol, canfuom nad yw'r Awdurdod wedi sefydlu systemau effeithiol eto i ystyried a chymeradwyo a ddylai fynd ar drywydd cyfleoedd newydd i wneud y gorau o incwm a sut i'w wneud. Cynhaliwyd adolygiadau tebyg yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill Cymru, sy'n cael eu crynhoi mewn adroddiad cenedlaethol.

## Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2023-24

Buom hefyd yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy a defnyddio ei adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- Monitro cynnydd yn barhaus wrth gyflawni Argymhellion Statudol
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mynediad

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a cysylltiedig, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân, pob un â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.